Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o dan y teitl 'Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru'

08 Mawrth 2017

Mae uno a chysylltu pobl yn rhan hanfodol o ddogfen gyflawni'r Llywodraeth, *Symud Cymru Ymlaen.* Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu economi gryfach a thecach, bydd modd inni ddarparu sefydlogrwydd economaidd i gymunedau ledled Cymru.

Er mwyn i Gymru dyfu'n effeithiol, rhaid i'n pobl gael eu cefnogi gan wasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion heddiw, ond sydd hefyd yn ein paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol. Bydd ystod, ansawdd a chapasiti'r rhwydweithiau seilwaith ledled Cymru'n allweddol i hyn.

Am y rheswm hwn, rwy'n symud tuag at strategaeth fwy hirdymor sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth er mwyn buddsoddi yn y seilwaith. Bydd y strategaeth yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef y ddeddf gyntaf o'i bath, a bydd hefyd yn ystyried y broses fodern a roddwyd ar waith yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynllunio ac i reoli adnoddau naturiol.

Yn *Symud Cymru Ymlaen,* rydym wedi ymrwymo i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru i ddarparu cyngor annibynnol ac arbenigol ar yr anghenion a'r blaenoriaethau o ran y seilwaith strategol.

Mae'n galonogol bod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi cydnabod gwerth posibl comisiwn o'r fath drwy ei ddewis yn destun un o'i ymchwiliadau cyntaf.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor, a'r cyfle i drafod ac i ddatblygu trefniadau gweithio'r Comisiwn, yn fawr. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r Pwyllgor wedi paratoi adroddiad adeiladol ac, ochr yn ochr â'r adborth a ddaeth i law yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru, mae wedi helpu i lywio ein hystyriaethau o ran y Comisiwn.

Mae llawer o argymhellion y Pwyllgor yn cydweddu â'n barn ni. Mewn rhai meysydd, rwy'n credu bod angen mwy o amser i asesu effaith a budd posibl y Comisiwn. Mae hyn yn adlewyrchu fy marn i mai sefydlu'r Comisiwn yw cam cyntaf proses a fydd yn datblygu.

Bydd gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar waith y Comisiwn, a'i adolygu, yn rhan hanfodol o'i weithrediadau. Bydd hyn yn ein helpu i deilwra ei ddatblygiad yn ystod y blynyddoedd cynnar drwy ein llythyrau cylch gwaith blynyddol, gan sicrhau hyblygrwydd.

Bydd y gwaith craffu parhaus yn bwydo i'r adolygiad ffurfiol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru cyn tymor nesaf y Cynulliad.

Rwyf am weld y Comisiwn yn gwireddu ei botensial llawn dros y blynyddoedd nesaf, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y Pwyllgor yn parhau â'i rôl ar y daith hon. Isod, amlinellir fy ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

Isod, amlinellir yr ymatebion manwl i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad:

Argymhelliad 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Yn ogystal â'r seilwaith economaidd ac amgylcheddol, dylid ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor

Bydd cylch gwaith cychwynnol y Comisiwn yn cynnwys y seilwaith economaidd ac amgylcheddol.

Rydym yn sylweddoli bod dadl dros ehangu'r cylch gwaith i gynnwys cyflenwad tir strategol, ond o gofio'r systemau sydd eisoes ar waith, bydd angen ystyried hyn yn ofalus. Bydd angen rhoi cyfle i'r cynlluniau datblygu rhanbarthol ennill eu plwyf cyn bod modd asesu eu heffeithiolrwydd. Rydym eisoes wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol o'r Comisiwn cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Bryd hynny, byddaf yn ystyried y mater hwn ymhellach gan drafod â'm cyd-aelodau o'r Cabinet.

Yn y cyfamser, bydd disgwyl i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ystyried y rhyngweithio posibl rhwng ei argymhellion a'r seilwaith cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod argymhellion y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth gyfannol i'r anghenion seilwaith, ond bod modd iddo hefyd ganolbwyntio ar ei brif faes gwaith.

Goblygiadau ariannol – O ehangu'r cylch gwaith i gynnwys y tir a gyflenwir ar gyfer tai, byddai'n rhoi pwysau ar adnoddau'r Comisiwn, ei ysgrifenyddiaeth a'i gyllideb ymchwil. Caiff y goblygiadau ariannol llawn eu hasesu fel rhan o'r adolygiad a gynhelir cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Argymhelliad 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylai'r llythyr cylch gwaith blynyddol i'r Comisiwn gynnwys amcan o gyfanswm y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei wario ar y seilwaith, a hynny dros y cyfnod hiraf sy'n ymarferol.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

Rydym yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor ac yn cytuno y bydd yn hollbwysig bod y Comisiwn yn cael amcan clir o'r arian a fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn llywio ei argymhellion. Bydd hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn argaeledd cyllid preifat, cyllid nad yw wedi'i ddatganoli, a chyllid lleol, yn ogystal ag effeithiolrwydd y dulliau o gael mynediad ato.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Mae angen tîm penodol o bobl i roi sylw manwl i sut y defnyddir cyllid preifat wrth ddatblygu'r seilwaith. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai'r tîm hwnnw fod yn rhan o Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru ynteu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru, yn ogystal ag ystyried sut y bydd y tîm yn cydweithio â'r rhai sy'n gwneud gwaith perthnasol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

Rydym yn derbyn y bydd angen i swyddogion penodedig ganolbwyntio ar sut y gellir defnyddio mwy o gyllid preifat i gefnogi datblygiadau i'r seilwaith. Nid ydym yn credu y bydd yn briodol i'r Comisiwn wneud hyn oherwydd y perygl y gallai dynnu ei sylw oddi ar ei brif swyddogaeth o ddarparu cyngor annibynnol ar yr anghenion seilwaith yn y tymor hir. Byddwn yn pwyso a mesur dulliau eraill o wneud hyn, fel y Banc Datblygu.

Goblygiadau ariannol – Mae'n debygol y bydd angen adnodd ychwanegol i gyflawni'r argymhelliad hwn, gan ddibynnu ar y dull mwyaf priodol.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylid sefydlu'r Comisiwn yn gorff anstatudol, ond gyda rhagdybiaeth glir y bydd deddfwriaeth yn dilyn er mwyn i'r Comisiwn fod yn gorff statudol, annibynnol. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r ffordd orau o greu corff statudol.

Ymateb: Gwrthod yr Argymhelliad

Byddwn yn sefydlu'r Comisiwn ar sail anstatudol i sicrhau bod modd iddo roi cyngor a gwneud argymhellion cyn gynted â phosibl. Rydym eisoes wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol o'r Comisiwn cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Nid ydym yn ystyried rôl a chylch gwaith y comisiwn y byddai yn cael ei wella drwy ei gwneud yn statudol

Goblygiadau ariannol – Dim llawer o oblygiadau yn ystod tymor y Cynulliad hwn gan ein bod eisoes yn bwriadu cynnal adolygiad o statws, cylch gwaith ac

effeithiolrwydd y Comisiwn. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran adnoddau ynghlwm wrth lunio deddfwriaeth. Mater ar gyfer y chweched tymor fydd hwn.

Argymhelliad 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Er mwyn hybu ei annibyniaeth, dylid lleoli'r Comisiwn y tu allan i Gaerdydd, ac ni ddylai rannu adeilad ag adrannau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r costau cyn ised â phosibl, dylai rannu lleoliad â chorff cyhoeddus arall mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor

Bydd cylch gwaith a threfniadau gweithio'r Comisiwn yn cwmpasu Cymru gyfan. Bydd yn cael ei gynorthwyo gan ysgrifenyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru, ond bydd modd iddo bennu ei fethodolegau gweithio ac ymchwilio ei hun yng nghyd-destun y cylch gwaith a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

Byddwn yn ystyried yr achos dros gyd-leoli'r Comisiwn gyda chyrff cyhoeddus eraill yn y cyd-destun y bydd angen iddo fod yn annibynnol ar amryw o ddylanwadau a chyrff y bydd angen iddo gydweithio â nhw, a'r angen i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y pwrs cyhoeddus.

Bydd annibyniaeth y Comisiwn, a'i bersbectif cenedlaethol, yn cael eu diogelu a'u cefnogi ymhellach drwy ei gylch gorchwyl a'i lythyr cylch gwaith, ynghyd â gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar waith y Comisiwn drwy ei adroddiadau blynyddol a osodir yn y Senedd.

Goblygiadau ariannol – Gallai goblygiadau ariannol yr argymhelliad fod yn sylweddol, gan ddibynnu ar argaeledd ac addasrwydd ystad y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 6
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu cynnal gwrandawiad cyn penodi Cadeirydd y Comisiwn. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu craffu'n flynyddol ar y Comisiwn a'i waith, ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad blynyddol.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

O ganiatáu i'r Cynulliad graffu ar y Cadeirydd arfaethedig mewn gwrandawiad cyn ei benodi, bydd yn rhan ddefnyddiol o'r trefniadau craffu.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 7
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylai'r Comisiwn lunio adroddiad rheolaidd ar "Gyflwr y Genedl" gan ddilyn amserlen wahanol i'r amserlen wleidyddol. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid gwneud hyn bob tair blynedd. Dylai'r adroddiad blynyddol roi sylw i faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, a'i raglen waith dros y 12 mis nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion – boed yn yr adroddiad bob tair blynedd, neu mewn darnau unigol o waith – a hynny o fewn 6 mis.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

Rydym yn croesawu argymhelliad y Cynulliad sy'n taro cydbwysedd priodol rhwng cymesuredd a'r angen i graffu'n ddigonol ar waith y Comisiwn. Byddwn yn pennu'r trefniadau adrodd ar y sail hon.

Goblygiadau ariannol – Dim llawer o oblygiadau ariannol. Bydd yn rhan o swyddogaeth graidd y Comisiwn. Felly, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 8
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylai'r penodiadau a wneir i'r Comisiwn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn deall pob rhan o Gymru. O ystyried pwysigrwydd y Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu fforwm i ddwyn ynghyd y gwahanol ranbarthau yng Nghymru ac i ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarthau hynny.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

Roedd yr adborth a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi ein cynnig y dylid penodi aelodau ar sail eu gwybodaeth arbenigol a'u profiad. Rhaid i'r Comisiwn ystyried anghenion seilwaith Cymru mewn ffordd annibynnol a diduedd a bydd ei swyddogaeth graidd yn seiliedig ar egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gefnogi cymunedau amrywiol Cymru. Bydd cylch gorchwyl y Comisiwn yn adlewyrchu hyn.

O ran ymgysylltu drwy fforymau rhanbarthol, bydd yn bwysig bod y Comisiwn yn ymgysylltu ar lefelau priodol. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei hymgorffori

yn y cylch gorchwyl. Rwy'n credu mai mater i'r Comisiwn yw penderfynu ar y trefniadau manwl.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 9
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylai Llywodraeth Cymru annog y Comisiwn i sefydlu a datblygu perthynas gref â Chomisiwn y DU a'r Scottish Futures Trust, a dylent rannu gwybodaeth â'i gilydd. Dylid gwneud hyn yn y llythyr cylch gwaith cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd gan y Comisiwn gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ystyried goblygiadau prosiectau trawsffiniol a phrosiectau yn Lloegr yn unig sy'n gallu cael effaith fawr ar Gymru.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad

Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor. Fe'i hategwyd gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddywedodd wrthym y bydd meithrin perthynas waith gref a chynhyrchiol yn allweddol i effeithiolrwydd y ddau gomisiwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU i bennu'r ffordd orau o gydweithio, a byddant yn cadw llygad cyson ar effeithiolrwydd y berthynas waith i weld a oes angen gwneud trefniadau mwy ffurfiol.

Er ei fod yn wahanol fath o gorff, byddwn hefyd yn pwyso a mesur cysylltiadau posibl â'r Scottish Futures Trust.

Goblygiadau ariannol – Dim llawer o oblygiadau ariannol. Bydd yn rhan o swyddogaeth graidd y Comisiwn. Felly, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau rhaglenni.

Argymhelliad 10
Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

> Dylid ystyried y Comisiwn yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Ymateb: Derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor

Bydd y dyletswyddau a osodwyd gan y Ddeddf ar y sector cyhoeddus cenedlaethau yn y dyfodol Lles yn cael ei gydnabod gan y Comisiwn.

Dylai'r telerau fod yn glir bod yn rhaid i'r Comisiwn gynnal ei hun yn unol â'r egwyddorion a nodau.

Ni fyddai'n briodol diwygio'r ddeddfwriaeth i gynnwys y Comisiwn ar y pwynt hwn. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau rhaglenni.

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

08 Mawrth 2017

Annwyl Russell

'Rwyf wedi nodi'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr yn dilyn ymchwiliad Comisiwn yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i fewn i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae fy ymateb i'r argymhellion wedi'i gynnwys fel atodiad i'r llythyr hwn.

Hefyd, heddiw 'rwyf wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Comisiwn a gellir ei weld ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor am eich cyfraniad defnyddiol i ddatblygiad y Comisiwn ac edrychaf ymlaen yn fawr at berthynas gynhyrchiol barhaus fel mae ein cynlluniau yn aeddfedu.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.